**LC756**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003**

Mae'r rhain yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988 er mwyn diogelu sefyllfa pobl yr effeithir arnynt gan Reoliadau Credyd Pensiwn y Wladwriaeth (Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Amrywiol) 2002.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio bach sydd wedi cael ei gydnabod ar ran y Gweinidog.

Mae'r gwall yn y rhagymadrodd lle y dylid rhoi "... drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol" yn lle "... drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol".
Mae'r gwall hwn yn ymddangos hefyd yn y geiriau mewn cromfachau o dan bennawd y Nodyn Esboniadol.
Mae'r un camgymeriadau yn y testun Cymraeg.
Awgrymir y byddai'n briodol cywiro'r materion hyn yn y fersiwn gyhoeddedig.

**Sylwadau**

Yn Lloegr, mae'r Adran Iechyd wedi achub ar y cyfle i lunio cyfres newydd o reoliadau cyfunol gan ymgorffori rheoliadau gwreiddiol 1988, y diwygiadau niferus a wnaed iddynt dros y blynyddoedd a darpariaethau sy'n cyfateb i'r rheini a wnaed ar gyfer Cymru yn y rheoliadau presennol fel y'u diwygiwyd.

O gofio'r angen i'r rheoliadau ddod i rym ar 6 Hydref, deellir nad oedd digon o amser i ddrafftio a chyfieithu rheoliadau cyfunol ar gyfer Cymru.

Ond ystyrir y dylid dechrau yn awr ar y gwaith o baratoi fersiwn gyfunol o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru).

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**14 Hydref 2003**